**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2024 trwy Zoom**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Julia Hughes (Cadeirydd) | JH | Aelod Annibynnol |
| Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd) | SE | Aelod Annibynnol |
| Gareth Pritchard | GP | Aelod Annibynnol |
| Gill Murgatroyd | GM | Aelod Annibynnol |
| | | |
| Gareth Owens | GO | Swyddog Monitro/Clerc |
| Matthew Powell | MP | Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc |
| Lisa Allington | LJA | Cynorthwyydd Gweithredol/Cyswllt Aelodau |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd John Brynmor Hughes | JBM | Cyngor Gwynedd |

**Yn absennol**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Marion Bateman | MB | Cyngor Sir y Fflint |

---

Dechreuodd y cyfarfod am 10:08

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod ac adolygiad Llywodraethu ATA Archwilio Cymru gael eu cynnwys o dan y materion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

4.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nodwyd nad oedd cofnodion y Fforwm Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor eto, fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 5.4 o'r cofnodion, a chytunwyd y byddai'r weithred hon yn cael ei chario drosodd.

5.2 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mewn perthynas â pharagraff 6.8 bod y cynnig i alinio'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch i gynnwys diffoddwyr tân wedi cael ei godi gyda Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth yng nghyfarfod diwethaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ym mis Ionawr. Penderfynwyd, er nad oedd diffoddwyr tân yn ddarostyngedig i'r cod ymddygiad, y dylai'r polisi fod yn berthnasol iddyn nhw hefyd. Felly, erbyn hyn mae un polisi ar gyfer pob gweithiwr, waeth beth fo'u rôl.

5.3 Cadarnhawyd ymhellach fod pob un o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â pharagraff 6.8 wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn craffu ar y ffurflenni unwaith y flwyddyn.

5.4 O ran y penderfyniadau a wnaed ym mharagraff 7.6, cysylltwyd â Chyngor Sir Wrecsam ond ni chafwyd ymateb hyd yma. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'n mynd ar drywydd hyn.

5.5 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi, mewn perthynas â pharagraff 8.7(i), darparu adborth i gyfarfod yr Awdurdod yn y dyfodol ar arsylwadau ar gyfarfodydd yr Awdurdod gan Aelodau Annibynnol, nad oedd unrhyw adroddiad ffurfiol wedi'i ddarparu i'r Awdurdod hyd yn hyn; fodd bynnag, y bwriad oedd cyflwyno hwn i'r cyfarfod nesaf ar 15 Ebrill.

5.6 Cadarnhawyd bod y ddau benderfyniad o dan baragraff 10.5 wedi'u gweithredu.

5.7 **PENDERFYNWYD:**

i) Clerc i ddosbarthu cofnodion y fforwm safonau cenedlaethol i aelodau'r Pwyllgor;
ii) Clerc i ailgysylltu â Chyngor Sir Wrecsam ynglŷn â phresenoldeb Aelodau; a
iii) Clerc i ddarparu adroddiad ffurfiol ar arsylwadau gan Aelodau Annibynnol o gyfarfodydd yr Awdurdod yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 15 Ebrill.
iv) Clerc i sicrhau bod y Polisi Rhoddion a Lletygarwch sydd wedi'i gymeradwyo yn cael ei roi ar wefan yr Awdurdod.

## 6 Adborth ar unrhyw ddeddfwriaeth/canllawiau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn deillio o'r ymgynghoriad ar Adolygiad Penn

6.1 Nodwyd bod Crynodeb o Ymatebion Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor drwy'r agenda.

6.2 Gwnaeth adroddiad Penn nifer o argymhellion ac mae Fforwm Safonau Cenedlaethol bellach wedi'i sefydlu. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori a nodi, pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r cod sy'n gofyn am ddeddfwriaeth, na fyddai hynny'n digwydd tan dymor nesaf y Senedd yn 2026, oherwydd y cyfyngiadau ar amser deddfwriaethol yn y Senedd.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

i) nodi cynnwys y diweddariad a roddwyd.

## 7 ADOLYGIAD TREIGL O GOD YMDDYGIAD Y CYNGHORWYR

7.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar God Ymddygiad y Cynghorwyr (y Cod) a oedd yn cael ei ddarparu i'r Aelodau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol, yn enwedig o ystyried yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad Penn.

7.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y tabl ar dudalen 10 y pecyn a oedd yn amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu hargymell i'r Cod, ynghyd â naratif ar y newidiadau hynny. Nodwyd bod risg fach y gallai Aelodau wneud newidiadau i'r Cod a allai wedyn gael eu diwygio ychydig gan Lywodraeth Cymru.

7.3 Adolygwyd y newidiadau'n fanwl. Nododd un Aelod, o ran datgan ymddygiad troseddol, y gallai aros am euogfarn cyn disgwyl i'r Aelod wneud datganiad olygu y gallai'r Aelod fod yn gwasanaethu am gyfnod sylweddol o amser tra'i fod yn destun ymchwiliad i drosedd ddifrifol.

7.4 Nodwyd y gallai'r Ombwdsmon gael gorchymyn atal dros dro pe baent yn teimlo bod Aelod yn peri risg, ac roedd argymhellion Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn yn haws i'w weithredu mewn gwirionedd drwy ostwng y trothwy. Fodd bynnag, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gwneud cais am y gorchymyn hwn gan nad yw'n debygol y byddent yn ymwybodol o'r ymchwiliad a oedd yn mynd rhagddo, oni bai bod y drosedd yn un mor ddifrifol fel ei bod yn denu cyhoeddusrwydd eang. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Safonau yn parhau i fonitro hyn.

7.5 Gofynnodd un Aelod a oedd rheoliadau diogelu ar waith a fyddai'n golygu bod yr Awdurdod yn cael ei hysbysu o unrhyw bryderon diogelu, ac ymatebodd y Clerc drwy ddweud y byddai'n gwirio hyn.

7.6 Cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud y newidiadau gwirfoddol i'r Cod ar unwaith.

7.7 Gofynnodd yr Aelodau am i unrhyw wybodaeth a gafwyd yn y maes hwn gael ei rhannu yn ystod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau, i'w gynnal cyn y dyddiad cau derbyn adroddiadau ar gyfer cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 15 Ebrill 2024.

7.8 **PENDERFYNWYD:**

i) Adolygu geiriad Cod Ymddygiad y Cynghorwyr i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol;
ii) Penderfynu a ddylid argymell bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'n wirfoddol y newidiadau i God Ymddygiad y Cynghorwyr sydd wedi'u hargymell gan Adolygiad Penn;
iii) Parhau i fonitro newidiadau i'r Cod o ran datgan euogfarnau troseddol;
iv) Gofyn i'r Clerc wirio'r rheoliadau diogelu;
v) Gofyn i'r Clerc ymchwilio i ba gamau y mae Swyddogion Cyfreithiol eraill ledled Cymru wedi'u hargymell o ran adrodd ynghylch euogfarnau troseddol; a
vi) Threfnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau cyn dyddiad cau derbyn adroddiadau ar gyfer cyfarfod llawn nesaf yr Awdurdod ar 15 Ebrill.

## 8 ADOLYGIADAU TREIGL O'R PROTOCOL AR BERTHNASOEDD AELODAU/CYFLOGEION

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur mewn perthynas â'r adolygiad treigl o'r protocol ar berthnasoedd Aelodau/Cyflogeion (y Protocol), a oedd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.

8.2 Cyfeiriodd un Aelod at bwynt 2.5 yn y protocol a gofynnodd a fu problem erioed gyda grŵp gwleidyddol yn gwneud penderfyniad heb ddilyn y drefn gywir.

8.3 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc nad oedd unrhyw beth wedi dod i sylw'r Swyddogion Monitro. Cadarnhaodd y Clerc ymhellach nad oedd yr Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan grwpiau gwleidyddol ac felly ni fu hyn erioed yn broblem.

8.4 Gofynnodd Aelod a ddylai'r cyfeiriad at gyflogeion gyfeirio at weithwyr mewn gwirionedd, a hefyd a ddylid newid y cyfeiriad at uwch swyddogion ym mharagraff 2.2 a thrafodwyd hyn yn fanwl.

8.5 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc y dylid darllen y Protocol ar y cyd â'r Cod Ymddygiad ac felly ei fod yn berthnasol i gyflogeion y mae'r Cod hwnnw'n effeithio arnynt. Fodd bynnag, byddai'n ymarferol newid y term 'senior employees' i gynnwys 'politically restricted' o dan baragraff 2.2.

8.6 Cytunwyd y dylid diwygio'r protocol i gynnwys 'worker' yn benodol yn ogystal ag 'employee' ac y dylid cynnwys esboniad o'r term 'worker' er mwyn cwmpasu gweithlu amrywiol.

8.7 Er mwyn eglurder, cytunwyd hefyd i ychwanegu'r gair 'personally' ym mharagraff 2.14 fel bod y datganiad terfynol yn darllen, "Any Member who approaches the media purporting to speak on behalf of the Authority on any item involving or affecting the Authority, without first approaching or consulting with the Chair and Chief Fire Officer will be personally responsible for such action."

8.8 **PENDERFYNWYD:**

i) adolygu geiriad y Protocol i gadarnhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol;
ii) gofyn i'r Dirprwy Glerc ddiwygio'r protocol i adlewyrchu'r ffaith bod angen iddo fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr awdurdod beth bynnag fo statws cyfreithiol eu "cyflogaeth"; a
iii) Gofyn i'r Dirprwy Glerc wneud y newidiadau perthnasol i baragraffau 2.2 a 2.14 fel y nodir uchod.

9 **ADBORTH GAN Y FFORWM CENEDLAETHOL AR GYFER CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU – DIWEDDARIAD LLAFAR GAN Y CADEIRYDD**

9.1 Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a chafwyd cyflwyniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cadarnhawyd bod nifer yr achosion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon wedi cynyddu ac roedd 116 achos yn weithredol ar hyn o bryd. O ran gwrandawiadau, roedd Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru wedi delio ag 11 ac roedd naw yn dal yn weddill.

9.2 Rhoddwyd cyflwyniad ar gydbwyllgorau corfforaethol hefyd a theimlwyd y gallai fod yn faes hyfforddi perthnasol ar gyfer y Pwyllgor Safonau hwn yn y dyfodol.

9.3 Trafodwyd adnoddau ac roedd posibilrwydd y gellid cynnal arolwg yn y maes hwn yn y dyfodol. Teimlwyd bod y fforwm wedi colli cyfle i ymgysylltu â Phanel Annibynnol Cymru ac efallai y gellir unioni hyn yn y dyfodol.

9.4 Trafodwyd hefyd yr addewid parch a chwrteisi, er ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw awdurdod lleol oni bai am Sir y Fflint wedi cymryd unrhyw gamau gweithredu ar hyn hyd yma.

9.5 Pennwyd 24 Mehefin 2024 fel dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

10 **RHAGLEN WAITH**

10.1 Nodwyd bod cyfarfod mis Medi 2023 wedi'i gynnal ym mis Hydref 2023.

10.2 Gofynnwyd i adborth gan Fforwm y Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol a'r Rhaglen Waith gael eu hychwanegu at y Rhaglen Waith ar gyfer cyfarfod Chwefror/Mawrth 2024.

10.3 Cytunwyd y byddai angen i gyfarfod Hydref 2024 gynnwys: adolygiadau protocol ac 'Ein Canfyddiadau' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; adborth ar Adolygiad Llywodraethu ATA Archwilio Cymru; Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru; a'r rhaglen waith, fel y cytunwyd.

10.4 Nodwyd y dylid cynnal hyfforddiant ym mhob cyfarfod.

10.5 Bydd adolygiad Archwilio Cymru yn cael ei ychwanegu at gyfarfod Chwefror/Mawrth.

10.6 Awgrymwyd y dylid tynnu sylw at yr eitemau agenda hynny sy'n rhai sefydlog a bod dyddiad cyfarfod arbennig y Pwyllgor Safonau ac eitemau ar yr agenda yn cael eu hychwanegu at y Rhaglen Waith, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft, presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r adolygiad treigl o God Ymddygiad y Cynghorwyr.

10.7 **PENDERFYNWYD:**

i) diwygio'r Rhaglen Waith i adlewyrchu eitemau agenda sefydlog ac eitemau agenda untro;
ii) diwygio'r Rhaglen Waith i gynnwys eitemau agenda sefydlog ar gyfer cyfarfodydd 2024/25;
iii) gwneud y newidiadau a nodir uchod; a
iv) chynnwys y cyfarfod arbennig sydd i'w gynnal cyn dyddiad cau derbyn adroddiadau ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ar 15 Ebrill.

11 **MATERION BRYS**

11.1 Gofynnodd y Cadeirydd am i bresenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod gael ei adolygu a nodwyd bod presenoldeb pob Aelod bellach wedi cyrraedd o leiaf 50% yn ystod eu tymor hyd yn hyn.

11.2 Gofynnodd y Clerc i'r Pwyllgor nodi y dylid edrych hefyd i weld a ydy presenoldeb yn gwella ar ôl i lythyr rhybudd gael ei anfon, ac os felly, dylid ystyried hynny.

11.3 Cadarnhaodd y Clerc y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor mewn perthynas â phresenoldeb Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

11.4 Rhoddodd y Cadeirydd adborth ar gynnydd briff prosiect Archwilio Cymru ar Lywodraethu ATA a dywedodd y byddai'r adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2024, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2024.

11.5 **PENDERFYNWYD:**

i) darparu adroddiad ysgrifenedig ar bresenoldeb Aelodau i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

Y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:23